Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llwyn-Yr-Eos
# Penparcau
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 1SH

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Llwyn yr Eos ym Mhenparcau ar gyrion tref Aberystwyth yn sir Ceredigion. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion prif ffrwd yn ogystal â disgyblion sy'n derbyn eu haddysg mewn pedair uned arbenigol. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ag anghenion penodol o wahanol ardaloedd ar draws Ceredigion. Mae'r ysgol yn nodi bod 63% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys 58% o ddisgyblion y brif ffrwd. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol. Mae gan ychydig o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae 211 disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae 38% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 21%. Daw tua 85% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg ar yr aelwyd. Saesneg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf mis Tachwedd 2007. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ionawr 2003.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos yn 2013-2014 yw £8,174. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £9,062, a'r lleiafswm yw £3,119. Mae Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos yn yr ail safle o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- bod yr ysgol yn hybu ethos cynhwysol yn llwyddiannus sy'n seiliedig ar barch a gofal;
- bod presenoldeb yr ysgol yn dda;
- bod yr ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol iawn; a
- bod yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau gwerthfawr i holl ddisgyblion yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles disgyblion;
- bod gan y staff a'r llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol a'i pherfformiad;
- bod cyswllt agos a chlir rhwng yr hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol; a
- bod y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau.

## Argymhellion

A1 Codi safonau mathemateg ar draws yr ysgol gan sicrhau bod y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd ar y lefel briodol ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu yn fwy cyson i hybu annibyniaeth y disgyblion

A3 Sicrhau bod yr holl dargedau yn y cynlluniau addysgol unigol yn benodol

A4 Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu'n fwy effeithiol ar y wybodaeth yn deillio o'r gwaith monitro

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Llwyn yr Eos yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Llwyn yr Eos yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Ar y cyfan, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn frwdfrydig yn y gwersi. Mae bron pob un yn cydweithio'n dda mewn parau ac mewn grwpiau, gan gyfrannu'n effeithiol i drafodaethau.

Mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion, ar ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol islaw'r disgwyl ymhob deilliant.

Mae safonau llafar Saesneg llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Maent yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn gallu trafod eu syniadau'n glir gan ddefnyddio geirfa briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o ddisgyblion y brif ffrwd yn siarad yn gynyddol hyderus. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth ac yn trafod eu syniadau'n ddeallus.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus gyda mynegiant cynyddol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r testun ac maent yn trafod cynnwys y llyfr yn ddeallus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon ac erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn gallu cywain gwybodaeth yn fedrus o wahanol destunau.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus gan ysgrifennu'n annibynnol ac atalnodi eu gwaith yn briodol. Fodd bynnag, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, nid yw medrau ysgrifennu estynedig ychydig o ddisgyblion gallu uwch wedi datblygu'n llawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amrywiaeth o ffurfiau ysgrifenedig gan ddefnyddio geirfa eang i gyfoethogi eu gwaith. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n fuan. Mae llawer ohonynt yn y Cyfnod Sylfaen yn gallu dilyn cyfarwyddiadau syml. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd brig yr ysgol, mae mwyafrif yn sgwrsio'n addas mewn sgyrsiau anffurfiol. Mae medrau ysgrifennu Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.  Gall llawer ohonynt gasglu gwybodaeth a'i throsglwyddo i ffurf graff yn annibynnol.  Enghraifft o hyn yw'r graffiau a wnaed yng nghyd-destun gwaith thema ar y corff.  Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o gymhwyso rhifedd ar draws y meysydd dysgu.

Yn gyffredinol, mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfrifo yn gywir.  Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

Mae llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai yn yr unedau arbenigol, yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.  Mae'r disgyblion ag anghenion dwys yn gwrando ac yn canolbwyntio'n briodol, gyda bron pob un yn dangos brwdfrydedd tuag at y gweithgareddau.  Er bod lefel cyrhaeddiad mwyafrif o'r disgyblion hyn yn isel, mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn datblygu'n addas.

Nid yw data perfformiad yr ysgol yn adlewyrchiad clir o waith cyfredol y disgyblion na safonau'r ysgol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, nid yw cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ym mhob maes dysgu yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg.  Mae perfformiad yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim dros y ddwy flynedd diwethaf.  Mae cyflawniadau disgyblion ar ddeilliant 6 hefyd yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ymhob maes dysgu yn 2013, ond yn y 50% uchaf mewn 2 o'r 3 maes yn 2012.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd yn unigol ac mewn cyfuniad yn 2013 yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru.  Yn gyffredinol, mae'r tuedd yn eithaf cyson dros y pum mlynedd ddiwethaf.  Mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 5 neu'n uwch, hefyd yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ymhob pwnc craidd.

Mae cyfrannedd uchel iawn y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ffactor arwyddocaol yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Yn gyffredinol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion nad ydynt yn hawlio cinio am ddim yn well o gymharu â disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim.

**Lles:  Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud, ei fwyta a'i yfed i gadw'n iach ac yn heini.  Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes unrhyw beth yn eu poeni.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfranogi'n frwdfrydig ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch a gofal at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr ac

yn yn ymddwyn yn dda a chydweithio’n effeithiol mewn ystod o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, mae’r mwyafrif yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol ac yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd yn addas.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim dros y 4 blynedd diwethaf. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae aelodau’r cyngor ysgol a’r pwyllgor eco yn ymfalchïo yn eu cyfrifoldebau ychwanegol ac yn falch bod eu hawgrymiadau’n cael eu hystyried gan yr ysgol. Bellach, mae mwy o weithgareddau yn cael eu cynnal i’r disgyblion dros gyfnod amser cinio.

Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datblygu medrau galwedigaethol defnyddiol megis coginio a chymorth cyntaf trwy gynllun cymunedol y mae’r ysgol wedi ei ddatblygu gyda Hyfforddiant Ceredigion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu priodol a pherthnasol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol, yn cynnwys gweithgareddau buddiol yn ymwneud â byd gwaith, megis coginio a gwaith pren. Mae’r cynlluniau gwaith yn fanwl a threfnus, ac yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol yn briodol. Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau gwerthfawr i ddisgyblion yr unedau arbenigol. Mae'r ddarpariaeth hon yn gryfder yn yr ysgol.

Mae’r cynlluniau gwaith yn sicrhau bod y rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, TGCh a medrau meddwl. Mae gan yr ysgol gynllun gweithredu pwrpasol ar gyfer gweithredu’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd ar draws y pynciau wedi’i datblygu’n llawn.

Mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol buddiol sy’n cyfoethogi profiadau’r disgyblion.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o’r Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn effeithiol iawn. Mae hyn yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau Cymraeg yn rheolaidd er mwyn hybu Cymreictod ymysg y disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn addas. Mae ailgylchu, arbed ynni a chynaliadwyedd yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol. Hyrwyddir dinasyddiaeth fyd eang yn briodol gan yr ysgol trwy ei chysylltiadau â’r Eidal a Ffindir.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio amrediad eang o adnoddau perthnasol a dulliau addysgu effeithiol i ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n drylwyr ac yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol y disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi ar draws yr ysgol, nid yw'r tasgau bob amser yn diwallu anghenion disgyblion uwch eu gallu. Mewn ychydig o wersi yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw'r tasgau yn datblygu annibyniaeth y disgyblion yn ddigon cyson.

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion sy'n hybu ymddygiad da ac yn meithrin dysgu yn effeithiol. Mae cynorthwywyr yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddysgu a lles y disgyblion.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion y wers ac yn cyfeirio atynt yn gyson er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o'r dasg. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n gyson ac yn cynnig sylwadau adeiladol sy'n cynorthwyo'r disgyblion i wella eu gwaith.

Mae trefniadau pwrpasol yn eu lle ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o brofion safonedig i fesur cyrhaeddiad disgyblion er mwyn darparu cefnogaeth briodol ar eu cyfer. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion ac yn amlinellu targedau priodol ar gyfer datblygiad pellach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Llwyn yr Eos yn sicrhau cynhwysiant llawn ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd anghenion dysgu ychwanegol yn briodol. Mae rhaglenni addysgol unigol yn cynnig targedau clir, penodol a mesuradwy ar gyfer y disgyblion ag anghenion dwys. Fodd bynnag nid yw'r mwyafrif o'r targedau ar gyfer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y briff ffrwd yn ddigon penodol a mesuradwy.

Mae athrawon yn darparu cefnogaeth briodol a rhaglenni ymyrraeth i ymateb i anghenion pob disgybl. Mae gan yr ysgol drefn gynhwysfawr a llwyddiannus i fonitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag asiantaethau penodol megis gwasanaethau meddygol a gwasanaethau cymdeithasol. Sicrha hyn ddarpariaeth arbenigol ac addas ar gyfer y disgyblion. Trwy gydweithio â'r gwasanaethau arbenigol, mae'r ysgol yn darparu gwasanaeth cwnsela proffesiynol ac effeithiol i ddisgyblion bregus.

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Llwyn yr Eos yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac yn hybu cydraddoldeb yn dda. Mae disgyblion yr unedau anghenion dwys yn cael eu cynnwys yn llwyddiannus ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Llwydda'r staff i feithrin agweddau ar barch, ymddygiad cadarnhaol a chydraddoldeb hiliol ymhlith y disgyblion drwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol addas a gwaith thema.

Yn gyffredinol, mae'r amgylchedd dysgu o ansawdd priodol. Mae gan yr ysgol ardaloedd allanol helaeth ac fe wneir defnydd addas ohonynt. Fodd bynnag, nid yw'r ardaloedd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen wedi eu datblygu'n llawn i hyrwyddo dysgu effeithiol cyson.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles disgyblion. Maent yn llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir sy'n cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wireddu ei hamcanion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae uwch dîm rheoli wedi datblygu eu rôl yn effeithiol ac mae bellach yn cymryd rhan flaenllaw yn y broses o fonitro safonau ac olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr ysgol bob amser yn gweithredu'n ddigon trylwyr ar ganfyddiadau monitro. Mae gan holl staff yr ysgol swydd ddisgrifiadau sy'n nodi'n glir eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae hyn yn cyfrannu'n dda i greu ymdeimlad cryf o gydweithio o fewn yn yr ysgol i godi safonau. Fodd bynnag, nid yw'r cyfrifoldeb am drosolwg yr unedau arbenigol wedi ei ddiffinio yn ddigon clir.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cymryd rhan amlwg yn strategaeth wella'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau manwl gan y staff ar gyrhaeddiad disgyblion a pherfformiad yr ysgol yn rheolaidd. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn wybodus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol adnabyddiaeth dda o'i chryfderau a mannau i'w datblygu. Mae staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn cymryd rhan briodol yn y broses o hunanarfarnu safonau a bywyd yr ysgol. Mae'r broses yn drylwyr ac wedi ei seilio'n glir ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl o

ddata.  Mae’r athrawon a’r llywodraethwyr yn cyfrannu’n effeithiol wrth greu adroddiadau cynhwysfawr am ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion.

Mae cyswllt agos rhwng yr hunanarfarnu â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol.  Mae’r cynllun yn canolbwyntio’n glir ar wella safonau ac yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir o ran cyflawni’r gwelliannau.  Mae’r cynllun hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni priodol ar gyfer eu cwblhau.  Serch hynny, nid yw’r ysgol bob amser yn ddigon treiddgar wrth arfarnu pa mor effeithiol fu’r gweithredu i sicrhau gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaethau.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae perthynas llwyddiannus rhwng yr ysgol a'r rhieni.  Mae cefnogaeth y rhieni wedi arwain at wella cymhelliant bechgyn i ddarllen.  Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda’r ddarpariaeth cyn ysgol, ‘Ffrindiau bach yr Eos’, a’r ysgol feithrin leol.  Mae hyn yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan wrth gychwyn yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol.  Mae trefniadau pontio effeithiol yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.  Cydweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ysgolion y clwstwr, ysgolion uwchradd a’r awdurdod addysg i safoni a chymedroli gwaith disgyblion.  Mae hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae partneriaethau eang yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol.  Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r ysgol wedi ei staffio’n briodol sy’n sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn cael mynediad llawn i’r cwricwlwm cenedlaethol a’r Cyfnod Sylfaen.  Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd staff yn enwedig yn yr unedau anghenion dysgu ychwanegol.

Defnyddir cymorthyddion dosbarth yn effeithiol ar draws yr ysgol i gefnogi’r addysgu a’r dysgu.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau, yn enwedig darllen, ar draws yr ysgol.

Rhoddir sylw dyledus i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn llwyddiannus.

Defnyddia’r athrawon eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.  Mae hyn yn cyfrannu’n dda at gynnal safonau a lles disgyblion.

Rheolir gwariant yn ofalus gan yr ysgol a’r corff llywodraethol.  Mae hyn yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy’n ymateb i anghenion yr ysgol.  O ystyried y deilliannau da a monitro addas o’r cyllid, mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn gyffredinol, mae asesiadau cychwynnol disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod medrau ieithyddol mathemategol a lles disgyblion yn isel. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn isel ymhob agwedd ac yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Yn 2013, 58% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn perthynas â'u datblygiad mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg, a datblygiad mathemategol. Mae hyn yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Fodd bynnag, cyrhaeddodd 79% o ddisgyblion ddeilliant 5 mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol sy'n cymharu'n fwy ffafriol â chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Mae perfformiad yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae cyflawniadau disgyblion ar ddeilliant 6 yn sylweddol is ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ymhob maes dysgu yn 2013 ond yn y 50% uchaf mewn 2 o'r 3 maes yn 2012.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd ac mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2013 yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Yn gyffredinol, mae'r tuedd yn eithaf cyson dros y pum mlynedd ddiwethaf. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyflawniad y disgyblion yn y tair agwedd llafar, darllen ac ysgrifennu wedi gostwng. Yr un yw'r darlun mewn mathemateg. Mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 5+, hefyd yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ymhob pwnc craidd, er yn gyffredinol wedi codi'n raddol dros y ddwy flynedd diwethaf.

O gymharu canlyniadau'r ysgol â pherfformiad ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol gan mwyaf yn perfformio yn y 25% i'r 50% isaf.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 82 | 76<br>93% | 6<br>7% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 83 | 79<br>95% | 4<br>5% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 84 | 81<br>96% | 3<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 84 | 83<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 84 | 80<br>95% | 4<br>5% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 83 | 76<br>92% | 7<br>8% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 84 | 84<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 84 | 82<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 84 | 75<br>89% | 9<br>11% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 84 | 81<br>96% | 3<br>4% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 80 | 66<br>82% | 14<br>18% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 83 | 62<br>75% | 21<br>25% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 8 | 3 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 62% | 23% | 15% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 8 | 3 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 62% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 9 | 2 | 0 | 0 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 7 | 4 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 54% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 13 | 7 | 3 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 54% | 23% | 8% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 8 | 3 | 0 | 2 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 23% | 0% | 15% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 9 | 2 | 0 | 2 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 69% | 15% | 0% | 15% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 12 | 7 | 3 | 0 | 2 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 58% | 25% | 0% | 17% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 7 | 3 | 1 | 2 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 54% | 23% | 8% | 15% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 8 | 3 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 62% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 8 | 3 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 62% | 23% | 15% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 13 | 9 | 2 | 0 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 69% | 15% | 0% | 15% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 8 | 2 | 1 | 2 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 62% | 15% | 8% | 15% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 8<br>62% | 2<br>15% | 3<br>23% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 5<br>38% | 5<br>38% | 1<br>8% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 13 | 7<br>54% | 4<br>31% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 12 | 3<br>25% | 4<br>33% | 1<br>8% | 2<br>17% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 8<br>62% | 2<br>15% | 1<br>8% | 2<br>15% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 8<br>62% | 3<br>23% | 0<br>0% | 2<br>15% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Anthony Bate | Arolygydd Tîm |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Llinos Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Brian Evans | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.